# Mae'r gwasanaeth am ddim i gasglu a gwaredu gwartheg marw* dros 24 mis oed, yn gorffen.

Rhaid i'r rhai sy'n cadw gwartheg ym Mhrydain Fawr wneud eu trefniadau eu hunain:

- o **1 Ionawr 2009**, ar gyfer gwartheg 24-48 mis oed
- o **12 Ionawr 2009**, ar gyfer gwartheg dros 48 mis oed.

* gwartheg sy'n marw ar fferm neu wrth eu cludo neu sy'n cael eu lladd heblaw ar gyfer y gadwyn fwyd

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

defra
Department for Environment Food and Rural Affairs

## Gwartheg marw 24-48 mis oed
**(gan dybied y bydd cynnydd mewn oed profi BSE o 1 Ionawr 2009)**

**Ni fydd y gwasanaeth am ddim yn gymwys i wartheg sy'n marw ar neu ar ôl 1 Ionawr 2009.** Bydd y rhai sy'n cadw gwartheg yn gyfrifol am yr anifeiliaid hyn. Ni fydd yn rhaid iddyn nhw gael eu profi am BSE a gellir eu hanfon i unrhyw adeilad addas sy'n creu isgynhyrchion anifeiliaid cymeradwy. Cysylltwch â'ch casglwr arferol neu'r Cwmni Stoc Marw Cenedlaethol (NFSCo) ar **0845 054 8888**.

## Gwartheg marw dros 48 mis oed

Bydd yn rhaid parhau i brofi'r gwartheg hyn am BSE yn unol â rheolau'r UE. **Bydd y casglu am ddim yn gorffen ar 12 Ionawr 2009**. Cyfrifoldeb y rhai sy'n cadw gwartheg fydd gwaredu'r ysgerbydau os na fyddan nhw wedi hysbysu erbyn canol nos ar 11 Ionawr. Rhaid anfon yr ysgerbydau i safleoedd samplo cymeradwy.

- Nid oes yn rhaid i'r rhai sy'n cadw gwartheg gysylltu â llinell gymorth gwyliadwriaeth TSE. Mae'n rhaid iddyn nhw gysylltu â chasglwr o fewn 24 awr i'r gwartheg farw er mwyn trefnu cludo i safle samplo cymeradwyo. Os bydd y rhai sy'n cadw gwartheg yn eu cludo eu hunain, dylen nhw gysylltu â safle samplo cymeradwy i gytuno ar hyn o fewn 24 awr a rhaid mynd â'r ysgerbwd o fewn 48 awr arall. A fyddech chi cystal ag ychwanegu'r label cod bar at gerdyn symud o'r pasbort a'i anfon i'r safle samplo gyda'r ysgerbwd. Cofiwch ddychwelyd y pasbort yn uniongyrchol i BCMS. Peidiwch â'i anfon gyda'r ysgerbwd. Cysylltwch â'ch casglwr arferol neu'r Cwmni Stoc Marw Cenedlaethol (NFSCo) ar **0845 054 8888**. Mae cymorth gan y Llywodraeth ar gael drwy NFSCo.
- Mae'n rhaid i gasglwyr gludo'r ysgerbydau hyn i safle samplo o fewn 48 awr i gytuno i ddarparu gwasanaeth casglu neu i gorff eu cyrraedd, pa un bynnag sydd gyntaf.

Bydd methu â chydymffurfio gyda'r gofynion uchod yn drosedd yn ôl Rheoliadau TSE. Bydd methu â gwaredu ysgerbydau anifeiliaid yn gywir yn drosedd yn ôl Rheoliadau Isgynhyrchion Anifeiliaid.

I gael mwy o wybodaeth os bydd angen, gallwch gysylltu â'ch Swyddfa Ranbarthol Iechyd Anifeiliaid leol: http://www.defra.gov.uk/animalhealth/index.htm

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

defra
Department for Environment Food and Rural Affairs